

Cofnodion

Teitl y cyfarfod:	Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol
Lleoliad:	Cyfarfod dros Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	26 Chwefror 2024
Aelodau'n bresennol:	Rhys A. Jones, Aelod o Fwrdd CNC (Cadeirydd) Dennis Matheson, TFA Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru Sarah Jones, Dŵr Cymru Kate Snow, United Utilities Chris Mills, Afonydd Cymru Marc Williams, CNC Jon Goldsworthy, CNC Sarah Hetherington, CNC David Ball, AHDB Einir Williams, Cyswllt Ffermio Delyth Lewis-Jones, AHDB Russ Thomas, Hybu Cig Cymru Fraser McAuley, CLA Michelle Griffiths, CNC James Ruggeri, HCC Elin Jenkins, Undeb Amaethwyr Cymru
Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:	Brian Stewart, Llywodraeth Cymru
Ymddiheuriadau:	Nichola Salter, CNC Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin Matt Walters, Llywodraeth Cymru
Ysgrifenyddiaeth:	Bronwen Martin, CNC

Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru) bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Croesawyd Michelle Griffiths, CNC, i'r cyfarfod (Rheolwr Tir Cynaliadwy newydd) gan Rhys.

2. Mae'r cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda.
 - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent ddatgan hefyd a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r camau gweithredu

4. Cadarnhaodd Rhys y bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC unwaith y byddant wedi cael eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan y grŵp, felly byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024. Rhoddodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, rai sylwadau ac awgrymodd welliannau ac mae fersiwn diwygiedig wedi'i ddsbarthu i'r grŵp. Derbyniodd y grŵp gofnodion mis Ionawr fel cofnod cywir.
6. Rhannodd Bronwen y log o gamau gweithredu oedd yn weddill a darparwyd diweddariadau llafar lle bo modd.

Eitem 3. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Adolygiad 4 blynedd

7. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r grŵp hwn ynghylch y Mesurau Amgen a'r broses Adolygiad 4 blynedd o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (CoAPR).
8. Rhoddodd Brian Stewart, Llywodraeth Cymru, gyflwyniad ar:
 - Gynodeb o'r sefyllfa bresennol
 - Trosolwg o'r broses adolygu 4 blynedd gan gynnwys yr amcanion lefel uchel
 - Ystyried ac asesu cynigion mesurau amgen
 - Proses o asesu effeithiolrwydd CoAPR
 - Ystyriaethau eraill fel rhan o'r adolygiad
9. Trafododd Andrew y Mesurau Amgen – cyflwynwyd cynigion i Lywodraeth Cymru gan Undeb Amaethwyr Cymru, Pruex, Coleg Sir Gâr, Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a CNC. Mae cynigion/elfennau'r cynigion yn perthyn i bedwar categori:
 - I'w datblygu ar gyfer eu hystyried fel rhan o'r adolygiad 4 blynedd.
 - I'w hystyried ymhellach ar ôl ymgysylltu â chynigwyr i benderfynu a ddylid datblygu'r cynnig fel rhan o'r adolygiad 4 blynedd.
 - Peidio â'u datblygu.
 - Y tu allan i'r cwmpas (e.e., awgrymiadau ar gyfer newid canllawiau) ond yn cael eu datblygu fel y bo'n briodol.
10. Darparwyd rhestr o gynigion a oedd yn amlinellu'r cynigion i'w datblygu fel rhan o'r adolygiad 4 blynedd. Soniodd Andrew am y Mesurau Amgen sydd i'w hystyried ymhellach i'w cynnwys yn yr adolygiad 4 blynedd.
11. Rhoddodd Andrew gynodeb o'r broses a'r llinell amser ar gyfer yr adolygiad 4 blynedd:

- Casglu data
- Asesiad o effeithiolrwydd y CoAPR i atal llygredd a chynigion Mesurau Amgen
- Penderfyniad gweinidogol ynghylch a oes angen ymgynghoriad ar newid rheoleiddiol o ganlyniad i'r dystiolaeth (os felly, mae'n debygol y bydd angen ymgynghori yng nghanol 2024)
- Newid rheoleiddiol yn amodol ar ganlyniadau ymgynghori a phenderfyniad Gweinidogol
- Adolygiad i'w gwblhau erbyn Ebrill 2025.

12. Awgrymodd Andrew y dylid cynnal trafodaeth gychwynnol am y cynigion mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bod angen mwy o fewnbwn arnynt, cyn penderfynu a ddylid eu datblygu fel rhan o'r adolygiad 4 blynedd:

- Rheoliad 6 i 10 – cynnwys yr holl drwyddedau cyllidol o fewn cynlluniau rheoli maethynnau a chyfyngiadau ar gnydau. Caniatáu ceisiadau ychwanegol ar gyfer systemau pori cylchdro dwys, yn unol â phorfa a dorrir deirgwaith y flwyddyn.
- Rheoliadau 13 a 14 – Gwell perthynas rhwng lleiniau clustogi a ffactorau risg.
- Rheoliad 15 – lleihau uchder mwyaf y llwybr taenu gwartaith, ar gyfer pob gwartaith.
- Rheoliadau 18, 19 a 22 – dewisiadau amgen i'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer gwarteithiau wedi'u gweithgynhyrchu a thail organig.

13. O ran Rheoliadau 6 i 10, yn benodol o ran cynnwys pob gwartaith o fewn Cynlluniau Rheoli Maethynnau a chyfyngiadau ar gnydau, mae rhagdybiaeth, sydd nid o reidrwydd yn gywir, y byddai hyn hefyd yn cysylltu â'r terfyn 170 cilogram yr hectar a fydd yn berthnasol i bob fferm o 1 Ionawr 2025. Roedd Andrew eisiau eglurhad o ran y cynigion a gyflwynwyd gan y grŵp. Nid oedd yn glir y byddai hwn yn ddewis arall i'r terfyn 170 cilogram yr hectar. Dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, ei fod mor hir y byddai angen i ni fynd yn ôl at ein cyflwyniad. Gofynnodd Chris a yw Llywodraeth Cymru yn mynd i fynd yn ôl at yr holl bobl a gynigiodd fesurau amgen a rhestru pa rai o'r mesurau amgen sydd wedi'u derbyn/gwrthod a pham. Cytunodd Andrew y byddai'n ddefnyddiol gwneud hynny. Byddai pob un o'r cynigion wedi cynnwys elfen o fewn y categori i'w hystyried ymhellach o ran a ddylid eu datblygu fel rhan o'r adolygiad pedair blynedd. Trafododd Andrew a Chris y ffordd orau o drafod y cynigion a gyflwynwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Dywedodd Chris ei fod yn waith eithaf manwl ac awgrymodd y dylid trefnu cyfarfod ar wahân. Cyn y cyfarfod mae'n bwysig cael gwybodaeth am ba fesurau sydd wedi/heb eu derbyn gan Lywodraeth Cymru fel y gallwn gael trafodaeth wybodus. Dywedodd Andrew fod hynny'n synhwyrol a'i fod yn hapus i ddilyn y dull hwnnw. Soniodd Andrew am y cynigion eraill a wnaed gan grwpiau/cyrrff eraill a'r ffordd orau o ystyried y rheiny wrth symud ymlaen – a ddylem wneud hynny fel grŵp neu a ddylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen eu hystyried. Dywedodd Rhys y byddai'n debygol y byddai gan yr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yma farn ac efallai y byddai am roi adborth arnynt. Efallai y dylem ganolbwyntio yn gyntaf ar y cynigion a gyflwynwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac yna gellir ehangu'r drafodaeth i ystyried y cynigion a gyflwynwyd gan y sefydliadau/grwpiau eraill.

Awgrymodd Rhys y dylid neilltuo cyfarfod nesaf yr Is-grŵp hwn i drafod y mesurau amgen a'r cynigion yn hytrach na threfnu cyfarfod ar wahân. Atgoffodd Chris y grŵp fod mynd drwy'r rheoliadau yn broses gymhleth i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

14. Soniodd Fraser McAuley, CLA, am y cysylltiad rhwng y newid posibl i Reoliadau 6 i 10, ac un o'r Gweithredoedd Cyffredinol yng nghynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) sy'n ymwneud â chynllunio iechyd pridd a chynllunio rheoli maethynnau. Gofynnodd Fraser pa sgysiau sy'n digwydd rhwng adrannau Llywodraeth Cymru i reoli hyn ynghyd â'r camau gweithredu penodol o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy oherwydd mae'n anodd gweld sut y gallai hynny weithio (e.e., rheoleiddio yn erbyn deddfwriaeth). Roedd Fraser eisiau codi hwn fel problem bosibl wrth symud ymlaen. Dywedodd Andrew ei fod mewn cysylltiad eithaf agos â thîm y Cynllun. Byddai unrhyw gynigion a gyflwynir yn ystyried y cynllun a'r hyn y mae'r cynllun yn ceisio'i gyflawni.
15. Dywedodd Dennis ei bod yn amlwg mai dim ond dechrau dod yn ymwybodol o'r rheoliadau mae llawer o bobl ac nad ydynt wedi cydymffurfio â'r Cynlluniau Rheoli Maethynnau, etc. Mae'n anodd iawn, iawn dod o hyd i ddarparu'r neu gynghorydd a fydd yn gwneud hynny ar eich rhan gan nad oes digon o weithwyr proffesiynol o gwmpas. Efallai y gellid cymryd hyn i ystyriaeth – er enghraifft os ydych yn cael archwiliad a heb allu darparu'r gwaith papur angenrheidiol. Dywedodd Andrew fod hynny'n bendant yn un o'r pethau y byddant yn edrych arno a bydd y mathau hynny o faterion yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad.
16. O ystyried yr amserlenni, awgrymodd Bronwen y dylid ystyried neilltuo cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i'r pwnc hwn. Efallai ei bod yn bwysig peidio ag eithrio unrhyw un o Aelodau eraill yr Is-grŵp yn yr ymgysylltu hwn, nad oeddent yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd Rhys ac Andrew yn cydnabod bod yna bobl allweddol ar goll heddiw.
17. Cynigiodd Rhys fod cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 25 Mawrth yn cael ei neilltuo i'r mesurau amgen. Dywedodd Rhys y dylai aelodau gwreiddiol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fod yn bresennol fel y gallwn fanylu ar y cynigion. Gellir gwahodd aelodau eraill o Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i fynychu hefyd os ydynt yn dymuno. Felly, bydd hyn yn awr neu ddwy yn benodol i drafod y Mesurau Amgen, yr adborth gan Lywodraeth Cymru a mewnbwn gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cytunodd Chris ac awgrymodd fod copi o gynigion Mesurau Amgen Grŵp Gorchwyl a Gorffen Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei ddsbarthu cyn y cyfarfod a bod gennym hefyd rywbeth gan Lywodraeth Cymru yn amlygu pa rai o'r cynigion sydd wedi'u derbyn/gwrthod/yn yr arfaeth.

PG 26 Chwefror 01: Bronwen Martin, CNC, i ail-ddosbarthu copi o adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

PG 26 Chwefror 02: Bronwen Martin, CNC, i neilltuo cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i drafod y broses Mesurau Amgen.

PG 26 Chwefror 03: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, i ddsbarthu unrhyw wybodaeth cyn y cyfarfod penodol ar Fesurau Amgen a'r broses adolygu 4 blynedd ar 25 Mawrth 2024.

18. Dywedodd Rhys y bydd dal angen trafod y cynigion a godwyd gan y sefydliadau eraill i gael y darlun cyfannol mwy. Gallwn hefyd adrodd yn ôl i'r grŵp cyfan pan fyddwn yn cyfarfod ym mis Ebrill.
19. Atgoffodd Dennis y grŵp fod yna sefydliadau nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen, ond gallent fod wedi mynegi eu barn ar unrhyw adeg ar ôl i ni gynhyrchu ein hadroddiad.

20. Gofynnodd Rhys a oedd gan unrhyw un adborth ehangach ar y broses a amlinellwyd gan Brian ac Andrew.
21. Galwodd David Ball, AHDB, i gof y byddai'r adolygiad wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2025 ac y byddai hynny'n cynnwys adolygiad o effeithiolrwydd y Rheoliadau a'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch. Fodd bynnag, o ystyried mai dim ond ar gyfer eleni mae'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch (tan fis Rhagfyr 2024), ni chaiff yr adolygiad ei gwblhau tan ar ôl hynny. Fel y mae, byddai'r Rheoliad wedyn yn dychwelyd i'r rheol 170-cilogram. Dywedodd Andrew fod hynny'n gywir, ond byddwn yn ystyried rhywfaint o'r wybodaeth a fydd yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r broses hysbysu, felly bydd gennym rywfaint o wybodaeth yng nghanam cynnar yr adolygiad. Wrth i'r adolygiad fynd rhagddo, byddwn yn ystyried unrhyw adborth a ddaw gan ffermydd sydd wedi rhoi'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch ar waith. Gofynnodd David a allai fod canlyniadau i'r adolygiad hwn cyn mis Ebrill 2025. Dywedodd Andrew fod hynny'n bosibilrwydd, ond mae unrhyw beth yn destun ymgynghoriad a phenderfyniadau Gweinidogol.
22. Cofiodd Rhys y drafodaeth ynghylch tystiolaeth a data a oedd yn canolbwyntio mwy ar effaith llygredd. Gofynnodd Rhys sut rydych chi'n cydbwysu effaith amgylcheddol y rheoliadau â'r effaith economaidd a rheoleiddiol. Dywedodd Andrew fod yr asesiad economaidd yn ystyried costau amgylcheddol cynigion ar gyfer newid, felly mae'r ystyriaethau amgylcheddol yn elfen allweddol o unrhyw asesiad effaith economaidd.
- Gofynnodd Chris ble mae cydymffurfiad cyfreithiol yn sefyll yn y cyd-destun hwnnw. Mae peth o hyn yn ymwneud â phobl mewn yn cydymffurfio go iawn â'r gyfraith er mwyn osgoi llygredd, ac nid yw ffactorau economaidd yn ystyriaeth yn hynny o beth. Dywedodd Andrew fod asesiadau effaith yn gyffredinol yn rhagdybio cydymffurfiaeth 100% oherwydd dyna beth y dylech fod yn ei gyflawni drwy reoleiddio. Mae'r math hwnnw o ystyriaeth y tu allan i'r broses asesu effaith rheoleiddiol, ond mae'n rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried fel rhan o'r adolygiad.
23. Dywedodd Chris na ddylem anghofio bod y rheoliadau hyn wedi'u cyflwyno oherwydd bod problem wedi'i nodi gyda maint y llygredd amaethyddol. Y prawf terfynol i weld a yw hyn yn gweithio ai peidio yw bod llygredd amaethyddol yn lleihau.
24. Dywedodd Elin Jenkins, Undeb Amaethwyr Cymru ei bod yn bwysig nodi bod economeg yn effeithio ar gydymffurfiaeth â rheoliadau. Er enghraifft, os na allwch fforddio uwchraddio seilwaith, yna mae hynny'n gohirio eich gallu i gydymffurfio. Yn yr un modd ag y mae rhwystrau gydag awdurdodau lleol yn darparu caniatâd cynllunio. Felly, rhaid i ni gydnabod bod rhwystrau i'w goresgyn i ffermwyr allu cydymffurfio â'r rheoliadau hyn – nid yw'n digwydd dros nos.
25. Daeth Rhys i'r casgliad y byddai cyfarfod mis Mawrth yn cael ei neilltuo i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fynd drwy'r Mesurau Amgen gyda Llywodraeth Cymru (ynghyd ag aelodau eraill os dymunant). Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedyn yn rhoi adborth i brif Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Ebrill. Cytunodd Andrew â hyn. Bydd papurau a gwybodaeth yn cael eu dosbarthu cyn cyfarfod mis Mawrth fel y gall y rhai sy'n bresennol wneud rhywfaint o waith paratoi.

PG 26 Chwefror 04: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu copi o gyflwyniad adolygiad 4 blynedd Llywodraeth Cymru.

Eitem 4. Cyflwyniad Prosiect Arddangos Teifi

26. Cyflwynodd Jon Goldsworthy, CNC, y grŵp i Brosiect Arddangos Teifi. Deilliodd y fenter o Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd y Prif Weinidog. Y syniad oedd datblygu a threalu dull gwahanol y gellid ei ehangu ar draws dalgylchoedd eraill pe bai'n llwyddiannus. Roedd angen iddo fod yn gyson â gweithgareddau eraill yn y dalgylch ac ategu atynt. Mae CNC wedi cyflwyno cais i gronfa Arloesi Ofwat am £2 filiwn dros y 5 mlynedd nesaf a fydd yn dod o Her Torri Tir Newydd ym maes Dŵr 4: Llwybr Catalydd (Water Breakthrough Challenge 4: Catalyst Stream). Mae Dŵr Cymru wedi ymrwmo (yn amodol ar gyllid) £2 filiwn pellach a fydd, os yw'n llwyddiannus, yn darparu cronfa o £4 miliwn. Bydd yn allweddol parhau i gyd-ddatblygu'r prosiect a mynd ar drywydd cyfleoedd ariannu eraill (e.e., Cronfa Arloesedd LIC / Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol).

27. Ar hyn o bryd, mae nodau'r prosiect yn cynnwys:

- Gwella ansawdd dŵr yn nalgylch Teifi, gan annog gwrthsefyll yn erbyn newid hinsawdd a gwell bioamrywiaeth yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Mabwysiadu dulliau rheoleiddio a chyfathrebu tystiolaeth arloesol ac ystwyth ar y cyd i gefnogi ystod o ymyriadau.
- Casglu'r hyn a ddysgwyd a'i reoli mewn ffordd ystwyth fel y gellir ei gynyddu gan ddod â buddion lluosog i systemau afonydd eraill.

28. Eglurodd Jon pam y dewiswyd Dalgylch Teifi, disgrifiodd y prosiectau a'r ymyriadau eraill yn afon Teifi a soniodd am rai o'r gwahaniaethau allweddol a'r arloesi yn y prosiect hwn.

29. Disgrifiodd Jon yr amserlen a'r camau pwysig yn y prosiect hwn a thrafododd rai o'r ymyriadau a'r gweithgareddau arfaethedig (yn amodol ar gyllid).

30. Dywedodd Dennis mai un o'r pethau pwysicaf yw cydweithredu rhwng sefydliadau presennol. Yn aml mae prosiect yn cael ei ddechrau, ac adroddiad yn cael ei gynhyrchu ond wedyn mae'n cael ei roi ar y ddesg ac fe anghofir amdano. Mae'n debyg bod rhai o'r pethau sy'n cael eu crybwyll, i ryw raddau, eisoes wedi'u gwneud ac mae'n allweddol ceisio casglu'r wybodaeth bresennol ynghyd.

31. Dywedodd Chris fod llawer yn digwydd mewn dalgylchoedd ac nad ydym yn gwneud y defnydd gorau o gyfanswm yr adnoddau. Yr her wirioneddol wrth symud ymlaen yw sicrhau bod model rheoli dalgylch cydgysylltiedig, effeithiol ac effeithlon yn bodoli. Gofynnodd Chris sut y bydd CNC yn cymryd yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect hwn ac yn darparu rhywbeth ar gyfer y dyfodol y gellir ei ddefnyddio mewn dalgylchoedd eraill. Yn y gorffennol, roedd hynny'n ein rhwystro ni rhag cael model llywodraethu effeithiol. I bob pwrpas, mae'r rheolydd yn darparu'r arweiniad ar gyfer y prosiect hwn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n mynd i fod yn bosibl i bob dalgylch yng Nghymru. Roedd Chris yn gobeithio y bydd y prosiect yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ba fath o fodel llywodraethu y gellid ei greu i gyflwyno hyn ledled Cymru a bod yn realistig ynghylch y math o adnoddau a fydd ar gael i wneud hynny – yn sicr ni fydd £4 miliwn o gyllid ar gael fesul dalgylch.

32. Cytunodd Jon fod yna her wirioneddol, ond mae hefyd yn gyfle. O ran y dystiolaeth, mae llawer o'r pethau hyn eisoes ar gael gan gynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur ac ymyriadau defnydd tir, ac mae angen i ni ddysgu ohonynt. Trafododd Jon rai ffyrdd posibl o gasglu'r dystiolaeth a'r pethau sydd eisoes wedi'u gwneud. Dywedodd Jon nad ydym am i hwn fod yn brosiect CNC, mae angen iddo fod yn wirioneddol gydwethredol.
33. Gofynnodd Rhys beth sy'n digwydd os na chewch yr arian, a ellir cyflwyno rhywfaint o hwn heb gyllid Ofwat. Gofynnodd Rhys hefyd am rôl benodol yr is-grŵp hwn, sut y gallwn ni helpu'r prosiect (e.e., efallai lledaenu dysgu). Dywedodd Jon fod rhai ymyriadau a champau gweithredu yn y rhestr honno y gallem eu datblygu ar y cyd ag adnoddau ac arbenigedd presennol o fewn y sefydliad. Mae budd pendant i'r cydweithio hyd yn oed heb y cyllid (e.e., y gwaith dosrannu ffynonellau sydd eisoes wedi'i wneud a mynd â hynny i'r lefel nesaf). Fodd bynnag, bydd angen cyllid ar gyfer cyflawni'r ymyriadau hynny mewn gwirionedd, a thalu am y gwasanaethau ecosystem hynny. Bydd yn gyfyngedig i'r hyn y gallwn ei wneud heb gyllid ond yn sicr bydd lle i wneud rhywfaint o waith hyd yn oed os na fyddwn yn cael yr arian. Dywedodd Jon ei fod yn obeithiol am y cais am arian.
34. Dywedodd Rhys y gallai ymweliad safle â Phrosiect Arddangos Teifi yn y dyfodol fod yn gyfle i'r Is-grŵp weld rhai o'r heriau a'r ymyriadau. Bydd hefyd yn gyfle i'r grŵp weld beth sy'n gweithio ac y gellid o bosibl ei uwchraddio mewn mannau eraill – yna gellir lledaenu gwybodaeth. Cytunodd Jon i rannu diweddariadau o bryd i'w gilydd.

PG 26 Chwefror 05: Bronwen Martin i ddosbarthu copi o gyflwyniad Prosiect Arddangos Teifi.

Eitem 5. Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA

35. Dosbarthwyd copi o Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA i'r grŵp cyn y cyfarfod.
36. Rhoddodd Delyth gefndir cryno y grŵp a'r adroddiad. Gofynnwyd i ni sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn gan gyn-Gadeirydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru tua 18 mis yn ôl a darparwyd yr ysgrifenyddiaeth gan CNC i helpu i symud pethau ymlaen. Datblygodd aelodaeth y grŵp rhywfaint dros yr ychydig fisoedd cyntaf oherwydd ei bod yn amlwg bod bylchau mewn gwybodaeth. Cymerodd fwy o amser na'r disgwyl i'r grŵp gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl am rôl ffosffadau a'r pethau sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd mewn rhai dalgylchoedd o ran prosiectau etc. Cafwyd mewnbyn da gan yr holl aelodau a ddaeth â'u gwybodaeth benodol at y bwrdd, a gwerthfawrogwyd hyn yn fawr.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys set o argymhellion, ac er bod llawer o wybodaeth ynddo, rydym wedi rhannu'r argymhellion yn bum maes: cyngor ac arweiniad, cymorth ariannol, rheoliadau, data a thystiolaeth ac ymchwil ac arloesi.
37. Dywedodd Marc Williams, drwy waith Prosiect Afonydd ACA, ei fod wedi bod yn gweithio'n agos gyda Changen Dŵr Llywodraeth Cymru a'u bod yn eithaf awyddus i weld rhai o ganlyniadau'r adroddiad hwnnw. Mae'r rhai sy'n ymwneud ag uwchgynhadledd y Prif Weinidog hefyd yn awyddus i ymgysylltu â'r sector amaethyddiaeth. Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynhyrchu'r adroddiad hwnnw a chael ychydig mwy o ddealltwriaeth o rai o'r materion sy'n ymwneud â ffosfforws yn y

sector amaethyddiaeth. Byddai'n wych cael trafodaeth heddiw ynghylch a allai'r Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru hwn, sydd eisoes wedi'i sefydlu i edrych ar lygredd amaethyddol, fod yn bwynt cyswllt. Mae'r adroddiad wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru a gallai gael ei gysylltu hefyd â rhai o'r Byrddau Rheoli Maethynnau a sefydlwyd yn yr ardaloedd Afonydd ACA sy'n methu ledled Cymru. Gallai rhai o'r Byrddau Rheoli Maethynnau fwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion hynny, ond gallai'r grŵp hwn fod yn allweddol o ran goruchwyllo hynny yn hytrach nag arwain arnynt.

38. Dywedodd Rhys fod rhai rhannau o'r adroddiad hwn a rhai argymhellion wedi'u targedu at sefydliadau eraill, er enghraifft Cyswllt Ffermio. Mae angen i ni benderfynu beth y gallwn ei wneud fel is-grŵp, yn sicr ar gyfer meysydd fel technoleg, data a thystiolaeth ac ymchwil ac arloesi.
39. Gofynnodd Chris a yw'r argymhellion wedi'u mabwysiadu mewn gwirionedd gan Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Dywedodd Chris nad oedd wedi darllen yr adroddiad eto, ond y cam cyntaf fyddai i'r grŵp ehangach naill ai gytuno neu anghytuno â'r argymhellion.
40. Gofynnodd Rhys am eglurhad ynghylch comisiynu'r adroddiad ac a ddylai fod cam ffurfiol i'r grŵp dderbyn yr adroddiad a'i argymhellion cyn penderfynu sut y gallem fwrw ymlaen ag elfennau ohono. Atgoffodd Marc y grŵp o sut y cafodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei sefydlu a'i esblygu.

PG 26 Chwefror 06: Y grŵp i ddarllen Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA gyda'r bwriad o'i dderbyn yn y cyfarfod nesaf.

41. Dywedodd Jon y byddai'n debygol y byddai angen i'r grŵp fabwysiadu'r adroddiad ac y gallem ddod yn ôl ato mewn cyfarfod arall. Soniodd Jon fod rhai o'r argymhellion yn benodol iawn o ran pwy sy'n mynd i fwrw ymlaen â rhai'n arbennig, ac yna mae rhai ohonynt yn generig iawn. Awgrymodd Jon y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r grŵp hwn yn nodi lle y gallai sefydliadau a chynrychiolwyr unigol gael effaith mewn gwirionedd a bwrw ymlaen â rhai o'r cynigion hyn. Dywedodd Jon y gallai weld sut y gallem wau rhai o'r rhain i mewn i Brosiect Arddangos Teifi, er enghraifft. Gallai'r grŵp ychwanegu gwerth o bosibl at yr adroddiad a sicrhau bod rhai o'r camau hyn yn cael eu cymryd.
42. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, ei bod wedi adolygu'r argymhellion a bod Cyswllt Ffermio wedi'u nodi i arwain ar rai ohonynt. Dywedodd Einir ei bod yn fwy na pharod i gyfleu hynny i'w chydweithwyr. Mae llawer ohonynt eisoes wedi cael eu hymdrin gan Cyswllt Ffermio neu byddant yn ymdrin â nhw cyn bo hir, felly efallai bod y meysydd hyn yn 'enillion cyflym' posibl.
43. Soniodd Delyth Lewis-Jones fod y grŵp yn fwy cyfarwydd â rhai meysydd nag eraill a dyna pam y ceir rhai argymhellion eithaf manwl ar gyfer Cyswllt Ffermio. Roedd yr argymhellion ehangach ar gyfer meysydd lle nad oeddem yn teimlo ein bod mewn sefyllfa i ofyn i sefydliadau penodol gymryd yr awenau – gallai fwy nag un sefydliad hefyd fwrw ymlaen â rhai.
44. Dywedodd David Ball, AHDB, nad oedd o reidrwydd yn gweld y grŵp hwn yn gweithredu rhai o'r argymhellion oherwydd mai cyfrifoldeb eraill yw gwneud hynny, fel Llywodraeth Cymru yn bennaf. Er enghraifft, byddai'r cyngor a'r canllawiau yr awgrymwyd y dylai Cyswllt Ffermio eu darparu yn dibynnu ar eu cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, pe bai'r grŵp hwn yn

mabwysiadu'r adroddiad, gallai ychwanegu rhywfaint o bwysau y tu ôl iddo ar gyfer y sefydliadau uwch hynny.

45. Gofynnodd Jon sut y gallwn godi proffil yr adroddiad hwn fel bod sefydliadau (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) yn cymryd rhai o'r camau hynny. Er enghraifft, a oes angen cyflwyno'r adroddiad hwn yn Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd nesaf y Prif Weinidog fel bod mwy o sylw iddo.
46. Dywedodd Marc fod Uwchgynhadledd nesaf y Prif Weinidog 18 Mawrth, a bydd diweddariad yn y cyfarfod hwnnw. Yn dilyn yr Uwchgynhadledd nesaf, bydd un arall yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a bydd thema amaethyddol i'r un honno. Mae'r un sydd wedi'i chynllunio ar gyfer 18 Mawrth yn mynd i gael ei chadeirio gan CNC a bydd ganddi fwy o thema cadwraeth (ynghyd â diweddariadau eraill ond heb fod yn fanwl iawn). Efallai mai'r Uwchgynhadledd ym mis Gorffennaf yw lle mae'n debyg y gallem ni fanylu ychydig yn fwy ar yr adroddiad. Bydd gennym ychydig mwy o amser i'r grŵp hwn ystyried y cynnwys a'r argymhellion, yn ogystal â chael sgwrs fanylach yn yr Uwchgynhadledd ym mis Gorffennaf.
47. Gofynnodd Bronwen a oedd yr adroddiad yn mynd i gael ei gyhoeddi i'r cyhoedd. Dywedodd Marc ei fod wedi'i anfon i Lywodraeth Cymru, ond nid oedd yn siŵr a fyddent yn ei gyhoeddi ar dudalen we Uwchgynhadledd y Prif Weinidog. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei anfon i'r Byrddau Rheoli Maethynnau.
48. Dywedodd Rhys pe bai'r grŵp hwn yn derbyn yr adroddiad a'i argymhellion, yna gallai fod rôl i ni fel is-grŵp ddod ynghyd, ar ôl ystyried beth sydd yn yr adroddiad a'r argymhellion, ac yna i feddwl am beth y gall ein sefydliadau ei wneud i helpu i symud ymlaen.
49. Dywedodd Michelle Griffiths iddi ystyried y sgwrs ynghylch comisiynu'r adroddiad a statws yr adroddiad hwnnw ar ran y grŵp. Awgrymodd Michelle efallai fod mater Cylch Gorchwyl yma. Os yw'r adroddiad wedi'i gomisiynu, yna mae angen i'r grŵp ddeall beth mae hynny'n ei olygu i'r fforwm. Atgoffodd Michelle y grŵp fod cofnodion Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael eu cyhoeddi'n gyhoeddus ar wefan CNC. Os ydym yn comisiynu adroddiadau, mae angen cael proses i'w cymeradwyo a chytuno arnynt. Holodd Michelle beth rydym yn ei wneud gyda'r adroddiad, a yw'n hygyrch i'r cyhoedd ar ran yr aelodau, ble byddem yn ei gyhoeddi etc. Mae gwahanol gamau yn ymwneud â lledaenu, argymhell a phwy sy'n eu cymryd. Awgrymodd Michelle y dylid gwneud hyn all-lein ac adrodd yn ôl i'r grŵp.

PG 26 Chwefror 07: Marc Williams, CNC, i rannu copi o Gylch Gorchwyl Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA gyda'r Athro Rhys Jones a Michelle Griffiths.

PG 26 Chwefror 08: Bronwen Martin, CNC, i ychwanegu 'Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA' at agenda mis Ebrill.

50. Dywedodd Rhys y byddwn yn trafod argymhellion penodol, cyfathrebu, a'r gwahanol bwyntiau gweithredu y gallwn eu nodi naill ai ar gyfer y grŵp hwn neu ar gyfer aelod-sefydliadau ym mis Ebrill, fel y gallwn gael cynllun clir i helpu i wthio canfyddiadau'r adroddiad yn eu blaenau. Cydnabu Rhys hefyd y cyfle i wneud rhywbeth yn Sioe Frenhinol Cymru mewn perthynas â'r adroddiad.

Eitem 6. Unrhyw Fater Arall

51. Soniodd Dennis ei fod wedi mynd i Gynhadledd ddiweddar y Ceidwadwyr lle bu gwrthdystiad enfawr o dractorau. Mae gwrthdystiad wedi'i gynllunio ar gyfer y Senedd yng Nghaerdydd ddydd Mercher. Mae yna anniddigrwydd cynyddol ymhlith ffermwyr gyda chryn dipyn o rwystredigaeth a dicter ynghylch mwy a mwy o reoliadau. Ar adeg pan fo cymorth yn cael ei leihau i ffermwyr. Mae cymaint o reoliadau newydd yn cael eu cyflwyno y naill ar ôl y llall, y gallai fod cyfnod pan na fydd ffermwyr yn fodlon ac y byddant yn cael llond bol. Mynegodd Dennis bryderon y bydd hyn yn gwbl wrthgynhyrchiol ac efallai bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried hyn yn ofalus ac arafu.
52. Cytunodd Elin Jenkins, Undeb Amaethwyr Cymru, â sylwadau Dennis. Mae ymchwydd o deimlad, ac mae'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr wedi'u nodi fel un o'r tri phrif fater yn y protestiadau ochr yn ochr â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a TB. Mae yna deimlad eich bod yn destun pregeth o'r brig i'r gwaelod ac nid yn gweithio o'r gwaelod i fyny. Mae croeso mawr i waith Dalgylch Teifi oherwydd mae'r prosiect hwn yn dechrau ar lawr gwlad ac yn gweithio am i fyny. Fodd bynnag, efallai ei bod yn mynd i fod yn dasg anodd iawn cael pobl i gymryd rhan oherwydd bod ffermwyr wedi cael digon gydag un rheoliad ar ben y llall. Nid yw'r rheoliadau'n syml, er enghraifft mae angen gwerth miloedd o bunnoedd o fuddsoddiadau seilwaith arnynt, ac maent yn cynnwys gwaith papur cymhleth iawn. Os bydd y sefyllfa'n parhau, yna mae perygl y bydd ffermwyr yn mynd ar streic. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ofalus o allu rheoleiddio a'r gost a ddaw yn sgil rhoi cymaint o reoliadau ar waith. Dywedodd Elin ei bod yn gyfnod anodd a bregus iawn ar hyn o bryd.
53. Derbyniodd Chris Mills ei fod yn gyfnod anodd ond mae grwpiau eraill a gynrychiolir yma sydd hefyd yn rhwystredig. Eglurodd Chris ei fod yn cynrychioli sefydliad sy'n gyfrifol am ansawdd ein hafonydd, ac maent yn rhwystredig iawn gyda chyflwr ein hafonydd. Mae'n rhaid iddi fod yn ddadl ddwyochrog ac mae angen ei chynnal gyda pharch a chwarteisi, ond mae angen i ni hefyd edrych ar y dystiolaeth a'r ffeithiau a'r ffigurau i'w hategu. Sefydlwyd yr is-grŵp hwn i edrych ar sut y gallwn ymdrin â llygredd amaethyddol, hyd yn oed os yw hynny'n golygu edrych ar ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni hynny. Nid yw'n fater o osgoi'r mater canolog.
54. Roedd David Ball, AHDB, yn cofio trafodaethau am y rheoliadau, yn enwedig yr adolygiad o'r hyn sydd wedi'i roi ar waith eisoes a'i effeithiolrwydd. Os penderfynir yn sgil canlyniad yr adolygiad hwnnw nad yw'r rheoliad wedi bod mor effeithiol ag y gallai fod, nid yr ateb i hynny, wrth gwrs, yw mwy o reoleiddio. Mae'n golygu edrych ar sut mae wedi'i roi ar waith. Mae adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA yn sôn am y rheoliadau presennol a'r gofyniad am gymorth ac arweiniad ariannol, a chanllawiau ar weithredu er mwyn sicrhau bod y rheoliad yn effeithiol. Mae'n fater o edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd a darparu cymorth ac arweiniad i'w wneud yn effeithiol ac yn ymarferol.
55. Mae aelodau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael y cyfle i fynyachu awr gyntaf cyfarfod nesaf y Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar 14 Mawrth 2024 (9.30am – 10:30am). Bydd y sesiwn hon yn cynnwys cyflwyniad ar 'waith Adolygu Monitro Ansawdd Dŵr CNC' gan Luke Tyler, CNC. Anfonwyd gwahoddiad ac agenda ddydd Gwener 23 Chwefror.
56. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 25 Mawrth 2024.

57. Ni chodwyd unrhyw fater arall.